Ysgol Gymraeg Pwll Coch

**Prosbectws 2023/24**

*Teulu mawr ŷm ni i gyd*

Ysgol Gymraeg Pwll Coch





**Ysgol Gymraeg Pwll Coch**
Rhodfa Lawrenny
Caerdydd
CF11 8BR

Ffôn: 02920 373 453
E-bost: ysgolpwllcoch@caerdydd.gov.uk
Gwefan: www.ygpc.cymru
Trydar: @ysgolpwllcoch @Siarterlaithpc

Pennaeth: Mr. Dewi Rees



**"Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi."**

Estyn, 2018

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh, English or bilingually.

# Cynnwys


- Croeso gan y Pennaeth
- Cyflwyniad i'r Ysgol
- Staff yr Ysgol
- Y Corff Llywodraethol
- Gwerthoedd a Gweledigaeth
- Gair o groeso gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol
- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
- Dyddiadau Tymor a HMS
- Mynediad
- Gwisg Ysgol
- Y Diwrnod Ysgol
- Cinio Ysgol
- Cinio Ysgol yn Rhad ac am Ddim
- Prydlondeb
- Presenoldeb
- Absenoldeb
- Pan fo Plentyn yn Sâl
- Gwyliau yn Ystod Tymor Ysgol
- Taliadau Amrywiol
- Bagiau Ysgol
- Byrbryd
- Gofal Bugeiliol
- Cyfle Cyfartal
- Teithio i'r Ysgol
- Diogelwch
- Diogelwch yn yr Haul
- Diogelu ac Amddiffyn Plant
- Ychydig o Reolau
- Bwlian
- Disgyblaeth
- Cwricwlwm i Gymru
- Addysg Gorfforol
- Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
- Addysg Grefyddol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Plant mewn Gofal
- Gwersi Offerynnol
- Polisi Codi Tâl
- Yr Urdd






**Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Chyfeillion,**

Croeso cynnes i Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Gobeithiaf bydd ein prosbectws yn ddefnyddiol ac yn eich annog i ddod i'n gweld ni yn yr ysgol.

Ein nod yw cynnig ysgol arloesol 3-11 sydd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf mewn awyrgylch teg, gartrefol ac uchelgeisiol. Credwn mewn paratoi disgyblion trwy ddatblygu eu sgiliau a'u gwerthoedd ar gyfer bywyd tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac i wynebu heriau'r unfed ganrif ar hugain.

Disgwyliwn y safon orau posibl gan ein disgyblion ac fe wnawn ein gorau i roi pob cyfle ac arweiniad iddynt hwy. Mae cyfoeth ac ehangder y gweithgareddau allgyrsiol yn nodwedd bwysig o fywyd a diwylliant yr ysgol hon. Anelwn at sicrhau llwyddiannau academaidd, diwylliannol, cerddorol a chwaraeon gan ddathlu llwyddiant pob disgybl, beth bynnag o'i ddawn a'i ddiddordeb.

Un o gryfderau ein hysgol yw ei hethos Gymraeg a theg, ei chymuned ofalgar, agored a hapus lle mae'r disgyblion yn teimlo'n gartrefol ac yn mwynhau eu haddysg. Anelwn at wneud dysgu yn brofiad cyffrous a phleserus a hynny yn bennaf trwy ddefnyddio dulliau dysgu diddorol a gweithredol yn ein gwersi.

Mae pob disgybl yn bwysig fel unigolyn, a phob unigolyn yn bwysig fel aelod o gymuned Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Yr egwyddor hon o barchu'r unigolyn a gosod anghenion yr unigolyn yn y canol sydd wrth wraidd ethos, gwerthoedd a llwyddiant ein hysgol. Mae ein disgyblion yn falch o'u hysgol, yn falch o'u Cymreictod a'u dwyieithrwydd ac yn medru cyfrannu yn gadarnhaol at gymdeithas aml-ieithog ac aml-ddiwylliannol Caerdydd, Cymru a'r Byd.

Mae addysgu plant yn gyfrifoldeb mawr ac yn fraint aruthrol. Os ydych yn rhiant i ddisgybl sydd eisoes yn yr ysgol, diolch i chi am ymddiried ynom gyda'r swydd.

Os ydych yn ystyried danfon eich plentyn i Ysgol Gymraeg Pwll Coch neu os hoffech wybod mwy, cysylltwch â ni. Yr wyf yn hynod o falch i fod yn Bennaeth ar yr ysgol cyfrwng Cymraeg llwyddiannus ac uchelgeisiol hon, a byddaf wrth fy modd yn eich tywys o gwmpas yr ysgol i chi weld dros eich hun beth allwn gynnig i'ch plentyn.

*Mr Dewi Rees*





**Cyflwyniad i'r Ysgol**

Ysgol Gynradd Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed yw Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Mae Uned Feithrin i blant 3 /4 oed ynghyd â Chanolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Cymhleth, Yr Hafan.

Sefydlwyd Ysgol Gymraeg Pwll Coch ym 1996. Ym Medi 1999 symudwyd i adeilad newydd a gorffennwyd estyniad i'r ysgol yn 2006 ar gyfer yr Ysgol Uchaf. Cyrhaeddodd ei llawn dwf yn ddwy ffrwd yn 2008. Mae dalgylch yr ysgol yn eang ac yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd deheuol a gorllewinol dinas Caerdydd, yn enwedig ardaloedd Lecwydd, Glan yr Afon a rhannau o Dreganna. Mae tua 330 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys 64 lle yn y dosbarth Meithrin. Mae 13 o ddosbarthiadau yn ogystal â'r dosbarthiadau meithrin bore a phrynhawn.

Mae tua 20% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg lle mae o leiaf un o'r rhieni yn siarad Cymraeg, tua 5% o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg a daw tua 80% o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Hefyd mae 23% yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig. Ar hyn o bryd mae tua 12% o'r disgyblion yn cael prydau bwyd am ddim; mae'r ffigwr o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae 10% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'r ffigwr hwn o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn yn Nhymor y Gwanwyn 2018. Mae'n adeilad pwrpasol - yr adeilad newydd sbon cyntaf ar gyfer ysgol Gymraeg yn y Brifddinas. Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech ragor o wybodaeth am ein hysgol neu ewch i'n gwefan www.ysgolpwllcoch.co.uk

**Trydar: @ysgolpwllcoch @SiarterIaithpc**

## Staff yr Ysgol

### Tîm Arwain Strategol

Mr. Dewi Rees – Pennaeth
Mrs. Samantha Sampson – Dirprwy Bennaeth
Miss. Hannah Owen – Arweinydd yr Ysgol Uchaf
Mrs. Catherine Sellwood – Arweinydd yr Ysgol Isaf
Mr. Gareth Vaughan-Owen – Cydlynydd ADY a Lles (Ysgol Uchaf)
Mrs. Sandra Graville - Cydlynydd ADY a Lles (Ysgol Isaf)

### Athrawon Dosbarth

Miss. Hannah Owen – 6 Rhiannon
Mr. Gareth Vaughan Owen/ Mrs. Samantha Sampson – 5/6 Taliesin
Miss. Carys Alun – 5 Gelert
Mr. David Plain – 4 Owain Glyndŵr
Mrs. Nerys Griffiths Jones – 3/4 Caradog
Mrs. Amy Edwards – 3 Arthur
Ms. Becca Lewis – 2 Pwyll
Miss. Elle Woodberry/ Mrs. Catherine Sellwood – 1/2 Branwen
Mrs. Sandra Graville – 1 Dewi
Mrs. Catrin Evans – Derbyn Non
Mrs. Meinir Williams / Mrs. Tracey Rees – Y Feithrin - Mabon a Mabli
Mrs. Marie Drawbridge-Harding – Yr Hafan
Mr. Christopher Walker – Y Nyth

Miss. Sioned Jones – CPA
Mrs. Mari Hughes - CPA

### Cynorthwywyr Addysgu

**Yr Ysgol Uchaf**
Mrs. Eiry Davies
Mrs. Tina Jenkins

**Yr Ysgol Isaf**
Mrs. Sam Cotterill
Mr. Hywel Bleasdale
Mrs. Megan Hughes
Miss. Phillipa Evans

**Yr Hafan**
Mrs. Iona Joseph
Miss. Rhian Harry
Miss. Stacey Done
Mrs. Elin Morgan
Miss. Elliw Leader

**Y Nyth**
Mrs. Ceri Cannum
Miss. Carys Webb
Mrs. Beti Jones

**Swyddog Gweinyddol**
Mrs. Suzanne Wheeler-Wood

**Swyddog Gweinyddol a Chyllid**
Mrs. Sian Andrews

### Rheolwr Ystadau

Ms. Kate Lewis

### Cynorthwy-ydd Ystadau

Mr. Terry O'Donovan

### Tîm Arlwyo

Mrs. Kerry O'Connor
Mrs. Wendy Tonna

### Tîm Clwb Brecwast

Mrs. Pam Goodman
Mrs. Wendy Tonna
Mrs. Lisa Dwyer
Mrs. Belvinda Kaur
Miss. Sam Mitchell
Miss. Stacey Done

### Goruchwylwyr Amser Cinio

Mrs. Pam Goodman
Mrs. Lisa Dwyer
Miss. Natasha Burke
Miss. Reima Roban
Mrs. Masuma Tarafder
Miss. Sienna Kennedy

## Corff Llywodraethol

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am ofalu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol, yn gweithredu o fewn y fframwaith a osodir gan ddeddfwriaeth a bod polisïau'r Awdurdod Lleol (ALl) a Llywodraeth Cymru (LlC) yn cael eu dilyn.

Mae'r Pennaeth ynghyd â'i Thîm Arwain Strategol yn gweithio mewn partneriaeth agos a chytbwys gyda'r Corff Llywodraethol i ddarparu'r addysg orau bosibl i holl ddisgyblion Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tymor ac mae yna hefyd nifer o is-bwyllgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol**

Mrs. Nona Gruffudd-Evans

**Pennaeth**

Mr. Dewi Rees

**Athro/ Staff Llywodraethwyr**

Mrs. Sian Andrews
Mrs. Tracey Rees

**Llywodraethwyr Awdurdod Lleol**

Cyng. Stephen Cunnah
Mrs. Wendy Wright
Mr. Rhodri ab Owen

**Rhieni Lywodraethwyr**

Mrs. Lydia Stirling
Ms. Rhianydd Lloyd
Ms. Helen Raynor
Mr. Mike Gelder
Mrs. Gwenfair Griffith

**Llywodraethwyr Cymunedol**

Mrs. Nona Gruffudd-Evans
Mr. Dylan Foster Evans
Mr. Penry Thomas
Mrs. Hannah Thomas

**Ein Nod**

Ein nod yw cynnal cymuned ysgol ofalgar a chynhwysol sy'n cynnig profiadau addysgol cyfoethog, gan ddathlu ein Cymreictod ac amrywiaeth ein diwylliannau.

Fel ysgol byddwn yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau i lwyddo yng nghamau nesaf eu bywydau.

Cefnogwn bob disgybl i ddatblygu yn:

• ddysgwr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;

• gyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;

• ddinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan lawn yn ein prifddinas, yng Nghymru a'r byd;

• unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

**Gweledigaeth**

Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn ymrywmo i wireddu'r weledigaeth isod:

- Cynnal cymuned ysgol ofalgar, gefnogol a chynhwysol lle mae hapusrwydd a lles bob unigolyn yn flaenoriaeth ar bob adeg.
- Ymdrechu i ffurfio perthnasoedd cryf gyda'n holl staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau y deilliannau gorau posibl i bob un.
- Anelu at ddarparu cwricwlwm ysgogol a chyffrous gyda phwyslais ar brofiadau addysgol cyfoethog.
- Darparu cyfleoedd i aelodau o gymuned yr ysgol, a'r gymuned ehangach, i ennill profiadau sydd yn datblygu balchder yn eu Cymreictod a rhuglder yn yr iaith Gymraeg.
- Annog dyheadau, hyrwyddo uchelgais a chydnabod ein bod i gyd yn ddysgwyr gydol-oes.
- Hyrwyddo parch tuag at yr amgylchfyd a chyd-ddyn a dathlu amrywiaeth ddiwylliannol o fewn ein dinas.





**Gair o Groeso gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol**

Llongyfarchiadau yn gyntaf ar ddewis addysg Gymraeg i'ch plentyn. Dyma'r dechrau gorau er mwyn datblygu sgiliau cyfangwbl ddwyieithog i'r dyfodol, ac a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan lawn ym mywyd eu cymunedau.

Mae'n fraint bod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Mae perthyn i'r gymuned hapus a chynhwysol hon yn deimlad arbennig. Bob tro rwy'n ymweld, rwy'n teimlo awyrgylch gynnes a chroesawgar yr ysgol, ac mae cwrteisi a brwdfrydedd y disgyblion yn aros yn y cof. Dyma gymuned sy'n datblygu disgyblion hapus, caredig, egwyddorol ac uchelgeisiol.

Ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn datblygu hyd eithaf ei botensial, ac yn derbyn profiadau gwerthfawr a chyffrous. Wrth gadw trosolwg ar faterion fel cyrhaeddiad a safonau disgyblion, iechyd a lles, materion cyllidol a diogelwch disgyblion, rydym yn cydweithio gyda'r Pennaeth a'r staff i lunio cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol.

Croeso mawr os ydych yn rhieni newydd, ac edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio gyda chi dros y blynyddoedd nesaf.
Dymuniadau gorau,

Nona Gruffudd-Evans
**Cadeirydd y Corff Llywodraethol**

**Ffrindiau Ysgol Gymraeg Pwll Coch**

Gweithiwn yn agos iawn gyda aeloadau brwdfrydig a chefnogol ein Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ar fentrau a gweithgareddau cymdeithasol. Ein nod yw i godi arian i'r ysgol er mwyn cefnogi'r staff a'r disgyblion ym mhob agwedd o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys profiadau tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Etholir y pwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac mae cynrychiolydd o blith rhieni pob dosbarth yn cael ei ethol hefyd ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng y rhieni a'r pwyllgor.

Cadeirydd – Mr. Mike Gelder     Is-Gadeirydd – Mrs. Non Stevens

Am wybodaeth pellach, ewch i: https://www.ygpc.cymru/ffrindiau-pwll-coch/

**Dyddiadau'r Tymor 2023/24**

**Tymor yr Hydref, 2023**

Dechrau - Dydd Llun, 04/09/23
Diwedd – Dydd Gwener, 22/12/23
Hanner Tymor – 30/10/23-03/11/23

**Tymor y Gwanwyn, 2024**

Dechrau – Dydd Llun, 08/01/24
Diwedd – Dydd Gwener, 22/03/24
Hanner Tymor – 12/02/24-16/02/24

**Tymor yr Haf, 2024**

Dechrau – Dydd Llun, 08/04/24
Diwedd – Dydd Llun, 22/07/24
Hanner Tymor – 27/05/24-31/05/24

**Hyfforddiant Mewn Swydd 2023/24**

Trefnir Hyfforddiant Mewn Swydd o fewn y flwyddyn ysgol. Ar y diwrnodau yma bydd yr ysgol ar gau ar gyfer y disgyblion:

Dydd Llun, 04/09/23

Dydd Mawrth, 05/09/23

Dydd Iau, 28/09/23

Dydd Llun, 08/01/24

Dydd Llun, 08/04/24

Dydd Llun, 22/07/24

Am fanylion pellach ynglŷn â dyddiadau'r tymor, ewch i:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Dyddiadau-tymor-ysgol/Pages/default.aspx

**Mynediad**

Mae plant yn cael mynediad i'r dosbarthiadau derbyn yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae lle i 64 o blant o oed Meithrin yn flynyddol, a lle i 60 yn y dosbarth Derbyn. Mae'r ysgol yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn y Sir sy'n sicrhau cyfle cyfartal a chyfleoedd i blant sydd ag anableddau. Caiff rhieni sydd wedi cofrestru manylion eu plant gyda'r Cyngor fanylion am y broses gwneud cais yn Nhymor yr Hydref a bydd trefniadau mynediad yn cael eu danfon atoch tua diwedd Tymor y Gwanwyn.

Gofynnwn i chi sicrhau bod y Cyngor yn cael manylion eich plentyn trwy :

Ffonio'r Tîm Derbyn i Ysgolion ar 02920 872909;
Cofrestru manylion eich plentyn ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk;
E-bost: derbyniadauysgolion@caerdydd.gov.uk

**Gwisg Ysgol**

Er nad yn orfodol, mae'r ysgol yn awyddus iawn i weld pob plentyn mewn gwisg ysgol.

Gallwch brynu ein gwisg ysgol o siopau:

- YC Sports, 156 Cowbridge Road East, Treganna, Caerdydd;
- EMA Embroidery, 127 Penarth Road, Grangetown, Caerdydd;
- Design & Signs, 348 Cowbridge Road East, Treganna, Caerdydd.

Mae’r wisg fel a ganlyn:

- Sgert/Trowsus du;
- Crys polo goch;
- Crys chwys neu gardigan goch;
- Esgidiau duon yn unig;
- Yn yr Haf, gellir gwisgo ffrog siec neu streipiog coch a gwyn neu trowsus byr du;
- Mae nifer o eitemau eraill ar gael yn y siop.

ERFYNIWN ARNOCH I LABELU HOLL DDILLAD AC ESGIDIAU EICH PLANT.

Pecyn Addysg Gorfforol :

- Crys T yn lliw’r llys (ar werth yn yr ysgol);
- Trowsus byr/hir du;
- Mae’n bwysig nodi bod angen pâr o esgidiau pwrpasol pan allai’r gwersi fod ar y cae.





**Y Diwrnod Ysgol**

Mae'r ysgol ar agor rhwng yr amseroedd canlynol:

**Y Feithrin: 9:00-11:30 / 12:45-15:15**
**Yr Ysgol Isaf: 9:00-15:15**
**Yr Ysgol Uchaf: 9:00-15:15**

Ceir egwyl fer yn ystod sesiwn y bore a'r prynhawn. Daw cyfanswm yr oriau addysgu i 23 awr a 15 munud yr wythnos yn y Cyfnod Sylfaen a 22 awr a 30 munud yr wythnos yng Nghyfnod Allweddol 2 – yr oriau a dreulir ar addysgu yn ystod wythnos ysgol gan gynnwys Addysg Grefyddol ond nid y weithred ddyddiol statudol o gydaddoli, o gofrestru ac egwylion.

Mae'r ysgol yn agor am 8:50 y.b.

Mae disgyblion y Feithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2 yn cyrraedd trwy ddrysau penodol tu flaen yr ysgol, ac yn cael eu hebrwng i'r iard chwarae ac mae plant yr Ysgol Uchaf (Bl3-6) yn cyrraedd trwy'r gatiau dwbl wrth ochr yr adeilad sy'n wynebu'r maes parcio.

Agorir y drysau i blant am 8:50 y.b. yn barod ar gyfer y wers gyntaf, sy'n cychwyn am 9:00 y.b. Mae'n hanfodol i'ch plentyn i fod yn y dosbarth yn barod am ddechrau gwersi'r dydd. Gofynnwn i chi fod yn brydlon ac i ganiatáu i'ch plentyn i ddod trwy'r drysau yn annibynnol.

Pe baech yn cyrraedd ar ôl 9.00 y.b. gofynnwn i chi alw gyda'ch plentyn i'r swyddfa trwy'r Brif Fynedfa ac i arwyddo eich plentyn yn hwyr ar y system electronig.

Mae'r gwersi prynhawn yn gorffen am 3.15 y.p. Sicrhewch eich bod ar yr iard gefn am 3.10 y.p. gan fod plant ifanc iawn yn gallu bod yn bryderus os nad yw'r rhieni yno i'w disgwyl pan agorir ddrws y dosbarth.

Oherwydd rhesymau diogelwch, hoffwn eich hatgoffa i beidio â pharcio eich car ar dir yr ysgol (h.y. maes parcio'r staff).

**Cinio Ysgol (£2.60 y dydd*)**

Hoffem i'ch plentyn fanteisio ar y cyfle i fwyta prydau iachus, ardderchog trwy dderbyn cinio ysgol. Mae ein Cogydd Ysgol yn darparu bwydlen faith a bwydydd maethlon cytbwys ac mae'r disgyblion yn eu mwynhau.

Rydym yn Ysgol Bwyta'n Iach ac mae gennym dystysgrifau a gwobrau am hyrwyddo arfer dda ar gyfer iechyd a lles.

Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn ysgol arlwyo di-arian parod ac mae holl daliadau a dewisiadau bwyd yn cael eu gwneud ar-lein drwy wefan ParentPay. Bydd pob rhiant yn derbyn manylion mewngofnodi a gwybodaeth am sut i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth wrth ddechrau yn yr ysgol.

Atgoffir rhieni bod rhaid archebu prydau ysgol ymlaen llaw, dewis bwyd a thalu ymlaen llaw.

**Cinio Ysgol Rhad ac am Ddim**

Os ydych yn meddwl fod eich plentyn yn deilwng i dderbyn prydau rhad ac am ddim, yna mae'n hanfodol i chi wneud cais i Neuadd y Sir, Caerdydd 02920 872938 neu e-bostiwch freeschoolmeals@cardiff.gov.uk.

***O fis Medi 2023, bydd bob disgybl Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 4 yn gymwys i dderbyn Cinio Ysgol am ddim.**

**Cinio Pecyn**

Os ydy eich plentyn yn dewis dod â brechdanau i'r ysgol, erfyniwn arnoch i sicrhau fod y pryd yn un iachus. Nid ydym yn caniatáu i'r plant i ddod â siocled, diod pefriog na losin i'r ysgol.





**Prydlondeb**

Mae’r ysgol yn agor am 8.50 y.b. Mae’r cyfnod cofrestru rhwng 9.00 a 9.15 y.b.

Mae gofyn i bob plentyn fod yn brydlon er mwyn cofrestru ar amser. Dynodir cyrraedd yn hwyr yn y gofrestr. Ar ôl 9.15 mae cyrraedd yn hwyr yn cael ei gofnodi fel absenoldeb heb ganiatâd, oni bai fod rheswm pendant megis apwyntiad meddygol, bws yn hwyr neu argyfwng teuluol. Os bydd y patrwm hwn yn parhau yna fe gymerir camau pellach gan yr ysgol.

Mae disgwyl i bob rhiant sy’n cyrraedd ar ôl 9.00 y.b. gwblhau system logio i mewn electronig yn y swyddfa gan hebrwng eu plant yn ddiogel i ofal aelod o staff yr ysgol. Nid yw’r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am blentyn sy’n cael ei adael tu allan i’r brif fynedfa yn y bore.

**Presenoldeb**

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau Sirol ynglŷn ag absenoldebau. Mae presenoldeb cyson yn bwysig iawn. Mewn achos o absenoldeb aml fe fydd yr ysgol yn cysylltu â’r Swyddog Lles Addysgol yn unol â’r polisi Sirol.

Mewn achos o absenoldeb sydyn, gofynnwn i chi gysylltu â’r ysgol cyn 9.30 y.b. ac am lythyr o eglurhad pan fo’r plentyn yn dychwelyd i’r ysgol. Rhif ffôn yr ysgol ydy 02920 373453. Os nad ydych wedi cysylltu cyn 9.30 y.b. cewch neges testun yn eich atgoffa.

Oni fyddwn yn derbyn galwad ffôn neu weld y rhiant yna fe nodir fod eich plentyn yn absennol heb ganiatâd.

Pan fo achos o absenoldeb wedi ei gynllunio ymlaen llaw e.e. apwyntiad meddygol, dylech ddanfon nodyn ymlaen llaw. Gofynnwn i chi hefyd nodi os bydd eich plentyn nôl mewn amser i gael cinio.









**Absenoldeb**

Mae dau fath o absenoldeb yn cael ei nodi:

**Absenoldeb â Chaniatâd** – yn cynnwys salwch, sefyllfaoedd arbennig, apwyntiadau meddygol.

- Dylid gwneud cais i'r ysgol er mwyn i'ch plentyn dderbyn caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm.
- Gofynnir i rieni ymdrechu i drefnu apwyntiadau doctor ayyb y tu allan i oriau'r ysgol.
- Gofynnir i chi hysbysu'r ysgol cyn gynted â phosib cyn yr absenoldeb.

Y Pennaeth yn unig all roi caniatad i ddisgyblion fod yn absennol.

**Absenoldeb heb Ganiatâd / Plentyn yn parhau i fod yn hwyr** – yn cynnwys absenoldebau heb reswm, cyrraedd sesiynau yn hwyr, gwyliau dros y 10 diwrnod statudol.

- Os cyfyd sefyllfa o bresenoldeb neu brydlondeb annerbyniol (fel arfer presenoldeb o dan 85% ) yna fe anfonir llythyr i'r cartef.
- Os nad oes gwelliant dros gyfnod o 4 wythnos yna fe anfonir ail lythyr a gwahoddir y rhieni i fynychu cyfarfod yn yr ysgol.
- Os nad oes gwelliant wedi 4 wythnos arall yna fe drosglwyddir y mater i'r Awdurdod Addysg, ac fe fydd y Swyddogion Cynhwysiad yn gweithio gyda'r rhieni i geisio gwella'r sefyllfa.

**Rhaid cadw eich plentyn gartref o'r ysgol o leiaf 48 awr os ydyw'n dioddef o ddolur rhydd neu'n chwydu, er mwyn osgoi ymledu unrhyw afiechyd i eraill.**

**Pan fo plentyn yn sâl**

Os bydd eich plentyn yn sâl yn ystod oriau'r ysgol, fe fyddwn yn cysylltu â chi a gofyn i chi ddod i gasglu eich plentyn. Mewn achosion o fethu cael gafael â rhiant fe fyddwn yn cysylltu â'r rhifau ffôn eraill y byddwch wedi eu rhoi i ni.

**GOFYNNWN I CHI GYSYLLTU Â NI YN SYTH PAN FO RHIFAU FFÔN, E-BOST A/NEU CYFEIRIAD YN NEWID.**

Ni chaniateir i blant fod yn yr ysgol â heintiau sydd yn hawdd i'w dal e.e. frech goch a'r frech Almaeneg; mae rhestr gyflawn o'r afiechydon ar gael gan eich Meddyg, nyrs yr ysgol, yr Ymwelydd Iechyd a'r ysgol. Dylech ffonio'r ysgol am wybodaeth.

**Asthma:**

Mae'n ofynnol i rieni sicrhau bod plant sy'n dioddef o'r cyflwr hwn gael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sugnydd heb gymorth oedolyn.
Dylai rhieni gwblhau ffurflen ganiatâd cyn danfon sugnydd i'r ysgol a dylai'r sugnydd gael ei labelu yn glir ag enw'r plentyn. Cedwir y sugnyddion yn ystafell y Pennaeth ac mae'r plant yn cael y rhyddid i ddefnyddio eu sugnyddion yn ôl y galw.
Cyfrifoldeb rhieni ydy sicrhau fod sugnyddion mewn dyddiad ac i adnewyddu yn ôl y galw.

**Llau pen:**

Oes, hyd yn oed yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch! Rydym yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Iechyd i'w gwaredu ac yn gofyn i chi:
- gadw eich plentyn adref nes bo'r pen yn glir;
- ein hysbysu o'r haint er mwyn i ni hysbysu'r rhieni eraill bod achos yn y dosbarth;
- gofio nad oes angen cywilyddio, mae'n digwydd i bawb!

**Moddion:**

Mae'r ysgol yn dilyn polisi'r Sir o ran gweinyddu moddion.

**Gwyliau yn ystod tymor ysgol**

Yn unol â pholisi'r Sir, gofynnir i benaethiaid i beidio ag awdurdodi ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor. Nid oes gan rieni na gofalwyr unrhyw hawl i fynd â phlentyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae'r ysgol ar agor am 190 diwrnod y flwyddyn, sy'n gadael 175 diwrnod yn rhydd i fynd ar wyliau ac ymweld â theuluoedd.

Ni ddarperir gwaith cartref ar gyfer disgyblion sy'n cael eu cymeryd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol.

**Taliadau Amrywiol**

Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn ysgol di-arian parod ac mae holl daliadau yn cael eu gwneud ar-lein drwy wefan ParentPay.

Bydd pob rhiant yn derbyn manylion mewngofnodi a gwybodaeth am sut i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth wrth ddechrau yn yr ysgol.

**Bagiau Ysgol**

Bydd angen bag gwaith ysgol ar eich plentyn er mwyn cario llyfrau darllen, gwaith a llythyron ysgol adre. Sicrhewch fod gan eich plentyn ei fag gwaith wrth ddod i'r ysgol bob dydd.

**Byrbryd**

Rhoddir cyfle i'r plant gael llaeth a ffrwyth cyn egwyl y bore.

Fe fydd plant y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn derbyn llaeth am ddim, o dan gynllun Llywodraeth Cymru.









**Gofal Bugeiliol**

Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb dros yr ysgol er bod pob athro yn gyfrifol am ofal y plant yn ei ddosbarth. Er bod yna athrawon ar ddyletswydd bob amser chwarae/cinio, mae yna ddamweiniau yn digwydd. Mae aelodau'r staff yn delio â mân friwiau ond byddant yn hysbysu'r rhieni gyda'r meddyg/gwasanaethau argyfwng ynglŷn ag unrhyw ddamwain mwy difrifol.

**Cyfle Cyfartal**

Rhoddir pwyslais ar gyfleoedd cyfartal i bawb yn yr ysgol, beth bynnag bo'u hoed, rhyw, gallu grŵp, cefndir ethnig, cred, cyfeiriadedd rhywiol neu genedl. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cyfleoedd cyfartal i unrhyw blentyn ag unrhyw anableddau. Mae 3 toiled anabl yn yr ysgol a lle newid yn un ohonynt.

Fel ysgol rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun hygyrchedd. Mae'r polisi ar gael o swyddfa'r ysgol.

**Teithio i'r Ysgol**

Lle'n bosibl, rydym yn annog rhieni a disgyblion i gerdded/seiclo i'r ysgol.

Mae Rhodfa Lawrenny yn rhan o'r Cynllun Strydoedd Ysgol ac felly nid oes modd gyrru ar stryd yr ysgol yn ystod yr oriau isod. Cynnigir fws cerdded o faes parcio Stadiwm Dinas Caerdydd bob bore am 8:40.

**8:15-9:15**
**2:15-3:45**

**Diogelwch**

Mynd a dod :

- Ni chaniateir ceir ar y safle (ac eithrio ceir staff). Mae man parcio anabl ar gael ond rhaid trefnu'n ysgrifenedig gyda'r Pennaeth ymlaen llaw cyn cael mynediad.
- Ni chaniateir cŵn ar dir yr ysgol, heblaw cŵn tywys.
- Ni ddylai plant/rhieni gerdded drwy'r maes parcio; dylid cerdded o gwmpas yr adeilad yn dilyn y ffens diogelwch.
- Mae drysau'r ysgol ar glo rhwng 9.00 y.b. a 3.15 y.p. Rhaid i ymwelwyr fynd i'r Dderbynfa ac arwyddo i mewn/allan gan ddefnyddio'r system electronig.
- Rydym yn croesawu rhieni i'r ysgol ond rydym yn awyddus i feithrin annibyniaeth yn y plant ac yn gofyn i chi annog a chaniatáu i'r plant ddod i mewn ac allan o'r adeilad hebddoch chi.
- Ni chaniateir i'r plant chwarae pêl, ddefnyddio beiciau neu scwteri, na defnyddio'r ffrâm ddringo cyn neu ar ôl oriau ysgol.
- Mae'n hynod bwysig i holl rieni'r ysgol rannu'r wybodaeth hyn â phawb sy'n casglu neu gludo'r plant i'r ysgol.

**NEWID TREFN CASGLU AMSER MYND ADREF**

Gofynnwn am wybodaeth pan fo newid yn nhrefniant casglu eich plentyn o'r ysgol.

**NI FYDDWN YN RHYDDHAU PLENTYN HEB GANIATÂD RHIANT—MAE'N BWYSIG I NI GAEL GWYBOD O FLAEN LLAW OS FYDD RHYWUN GWAHANOL YN CASGLU.**

Dylech gysylltu â'r ysgol mewn achos o orchymyn llys ac ati - mae hyn er lles y plant.

**Diogelwch yn yr Haul**

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r Sir ynglŷn â diogelwch yn yr haul. Disgwylir i'r rhieni ddarparu cap/het addas i'r plant ar adegau poeth. Gofynnwn wrth rieni i roi eli haul ar ei plentyn yn y bore. NI CHANIATEIR I STAFF ei roi ar blentyn.

**Diogelu ac Amddiffyn Plant**

Mae gan Ysgol Gymraeg Pwll Coch ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion, mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc.

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os oes pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr ysgol.

Gall Cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y Sir.

Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

Mae'r ysgol yn dilyn Protocol Sir Caerdydd a phe bai cyhuddiad yn erbyn aelod o staff fe fyddai'r ysgol yn dilyn camau gweithredu'r Sir.

**Swyddogion Diogelu**

Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig : Mr. Dewi Rees

Dirprwy Swyddogion Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig : Mrs. Samantha Sampson

Llywodraethwr Diogelu ac Amddiffyn Plant : Mrs. Nona Gruffudd-Evans





**Ychydig o Reolau**

**Rheolau Ysgol a Dosbarth:**

- cerddwch o gwmpas yr ysgol yn dawel;
- gwrandewch ar y person sydd yn siarad;
- cyrhaeddwch ar amser ac yn barod i ddysgu;
- cadwch eich dwylo, traed a geiriau cas i'ch hunan;
- byddwch yn gwrtais i bawb yn yr ysgol;
- parchwch bobl ac eiddo.

**Gofynnwn yn garedig i chi:**

- labelu pob dilledyn gan gofio'r wisg addysg gorfforol;
- atal eich plentyn rhag dod â theganau/manion i'r ysgol. Gall y rhain fynd ar goll ac achosi gofid i'r plentyn;
- beidio â danfon losin, siocled, creision a diodydd - heblaw am ddŵr, i'r ysgol.

**Mae hyn yn:**

- ran o bolisi iechyd yr ysgol;
- fodd i gael ysgol heb sbwriel;
- sicrhau bod unrhyw blentyn sydd â salwch/alergedd yn ddiogel o fewn yr ysgol;
- sicrhau bod pob plentyn yn gyfartal.

**Bwlian**

Mae hawl sylfaenol gan holl aelodau'r ysgol gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr ysgol. Mae unrhyw fath o fwlio yn hollol annerbyniol. Bydd yr ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn ddwys i bob achos o fwlio. Gwnaiff yr ysgol pob ymdrech i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd. Os oes gennych bryderon, cysylltwch â ni ar unwaith.

**Disgyblaeth**

Mae disgyblaeth yr ysgol yn gadarn ond yn deg. Hanfod ein cyfundrefn yw cydweithrediad llwyr rhwng yr ysgol a'r cartref. Pan fo plentyn yn gwrthod ymateb i bolisi'r ysgol, fe fyddwn yn cysylltu â'r rhieni.

Disgwylir ac anogir ymddygiad o safon uchel bob amser. Credir mewn rhoi canmoliaeth ddyledus i'r plant. Dylai pob plentyn edrych ar yr ysgol fel lle hapus a diogel.

Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn synhwyrol ac wrth gwrs mae adegau pan fo camau disgyblu yn orfodol.

**Ystod y Camau**

- Athro dosbarth yn delio â'r broblem;
- Cyfeirir y mater at Arweinydd;
- Cyfeirir y mater at y Pennaeth;
- Cysylltir â'r rhieni ac anogir eu cefnogaeth;
- Cofnodir y digwyddiad a'r canlyniad gan y Pennaeth;
- Eithrir dros dro o'r ysgol;
- Eithrir yn barhaol.

**Diarddel**

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau Sirol. Ni fydd diarddel yn digwydd cyn cyfarfod â'r rhieni. Gallwn eithrio plentyn yn barhaol pe bai'r achos tu hwnt i'n gafael.

**Dulliau Adferol**

Mae'r ysgol yn gweithredu Dulliau Adferol a cheir manylion pellach ar wefan yr ysgol.






**Cwricwlwm i Gymru**

Dyluniwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru i fod o gymorth i athrawon ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu.

Mae'r chwe Maes yn dwyn disgyblaethau cyfarwydd ynghyd, ac yn annog cysylltiadau ystyrlon a chryf ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd y disgyblaethau unigol hynny'n parhau i chwarae rhan bwysig, yn arbennig wrth i ddysgwyr ddangos cynnydd a dechrau arbenigo.

Yn ogystal â chydweithio mae'r canllaw yn annog dysgu ac addysgu traws-disgyblaethol, a hynny o fewn ac ar draws y Meysydd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i fagu cysylltiadau ar draws eu dysgu ac i gyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r rhain yn sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan fod yn rhaid i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r holl ddatganiadau. Bydd y broses o archwilio ac ailymweld â'r atganiadau hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ealltwriaeth gynyddol ddyfnach ar hyd y continwwm dysgu ac i ddangos cynnydd ar y daith tuag at ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r wybodaeth, syniadau a'r egwyddorion allweddol ym mhob Maes.

Bydd y ddealltwriaeth fwy soffistigedig hon yn galluogi dysgwyr i werthfawrogi sut mae eu dysgu'n cyfrannu tuag at y syniadau hyn a pham mae hyn yn bwysig, yn hytrach nag adalw ffeithiau digyswllt heb ddeall y cyd-destun. Dylid cefnogi'r cynnydd hwn gydag amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n galluogi'r dysgwyr ac athrawon i ddeall ble mae'r dysgwyr wedi cyrraedd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud nesaf.

Bydd y cwricwlwm yn cael ei drefnu yn 6 Maes Dysgu a Phrofiad:

- Mathemateg a Rhifedd
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Un o'n hamcanion fel ysgol yw hyrwyddo safonau uchaf posib o addysg effeithiol o fewn cwricwlwm cytbwys ar gyfer plant o bob gallu. Mae'r nod yma yn golygu'r un peth i'r disgyblion mwyaf galluog a'r disgyblion gydag anawsterau dysgu.

Mae'r ysgol yn cydnabod y bydd gan blant ambell i anhawster dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac rydym yn ceisio darparu'r addysg orau iddynt.

Cynigir ystod o gefnogaeth i'r plant hyn a'u teuluoedd. Ystyrir plant ag anghenion dysgu ychwanegol am y rhesymau a ganlyn: addysgol, corfforol, synhwyrol, ymddygiadol a phlant â chanddynt gallu uchel.

Mae'r ysgol yn dilyn polisi pendant ynglŷn â dysgu plant ag ADY. Rhoddir cymorth ychwanegol yn y dosbarth, lle'n briodol, os bydd heriau yn codi. Fe fydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni yn gyson i drafod unrhyw broblemau ac unrhyw gamau pellach y dylem eu cymryd.

Ystyrir pob plentyn yn arbennig yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac anelwn at sicrhau mynediad llawn i bob plentyn. Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hintegreiddio'n llawn i fywyd yr ysgol. Ystyriwn farn rhieni yn holl bwysig mewn unrhyw benderfyniadau a wneir.

Os hoffech weld copi o'n polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol, cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol. Ein Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ydy Mrs. Sandra Graville a Mr. Gareth Vaughan Owen ac mae croeso i rieni gysylltu â hi i drafod unrhyw bryderon.

**Plant mewn Gofal**

Ein gweledigaeth yw cefnogi plant sy'n derbyn gofal â phob agwedd ar eu haddysg, monitro eu cyflawniadau, ac yna eu cynorthwyo i oresgyn unrhyw rwystrau i lwyddiant, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

Ar fynediad i'r ysgol, bydd cynllun addysg bersonol effeithiol yn cychwyn fel rhan o gynllun gofal y plentyn. Mae'r cynllun addysg bersonol yn gosod targedau clir yn ymwneud â chyrhaeddiad academaidd, gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, a thargedau personol / ymddygiadol. Mae'r cynllun hefyd yn mabwysiadu safbwynt cyfannol, gan osod y plentyn wrth wraidd y broses a gan ystyried eu safbwyntiau a'u barn. Mae rhieni a / neu aelodau o'r teulu a gofalwyr hefyd yn cymryd rhan lawn.

## Gwersi Offerynnol

Mae’r ysgol yn cynnig gwersi offerynnol o Flwyddyn 3 ymlaen mewn ffidl, telyn, soddgrwth, bâs dwbl, allweddell, chwythbrennau a phres, a drefnir drwy Wasanaeth Cerdd y Sir.

Codir tâl am y gwersi. Mae’r gost yn llai i unrhyw riant sy’n derbyn budd-dâl. Mae gofyn i chi sicrhau ymrwymiad blwyddyn i’r gwersi hyn.

## Polisi Codi Tâl

Gofynnir i chi gyfrannu, o’ch gwirfodd, at:

- ymweliadau addysgiadol;
- bysiau ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â chwaraeon;
- cwmnïau theatr ac ymwelwyr / siaradwyr eraill;
- ambell waith, adnoddau (ee cynhwysion ar gyfer coginio).

Heb eich cefnogaeth, allem ni ddim cynnal gweithgareddau fel hyn sy’n fodd effeithiol o ddatblygu profiadau a chyfoethogi addysg ein plant. Ni fydd plentyn yn cael ei eithrio os nad ydy ei rieni yn medru talu.

Mewn achosion dilys o brinder arian, cysylltwch â’r Pennaeth os gwelwch yn dda.

## Urdd Gobaith Cymru

Mae'r ysgol yn cydweithio’n agos gyda’r Urdd ar draws ystod o feysydd. Anogir pob plentyn i ymaelodi â'r mudiad a chael  y cyfle i ymuno ag amryw o weithgareddau hwyliog gan  gynnwys cystadlaethau’r Eisteddfod.



